Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 14eg Hydref 2024 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 14th October, 2024 at 7.30 p.m. held at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School.

**Presennol/Present**: Cyng./Cllr. E. Lewis (Cadeirydd);
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies Cyng./Cllr. A. Evans.
Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan; Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

**Ymddiheuriadau / Apologies**: Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. A. Richards, Cyng./Cllr. Sh. Edwards.

| | | |
|---|---|---|
| 65. | **Materion Personol** | **Personal Matters** |
| 66. | **Datgelu Buddiannau Personol**<br>Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau. | **Disclosure of Personal Interest**<br>Members were reminded to declare an interest when discussing items. |
| 67. | **Asesiad Risg ac Asedau**<br>Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau. | **Risk and Asset Assessment**<br>There were no matters arising regarding Assets. |
| 68. | **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**<br>Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion canlynol gan gynnig ac eilio gan:<br>24ain Mehefin, 2024: Cyng. P. Davies, Cyng. A. Davies;<br>30ain Gorffennaf, 2024: Cyng. P. Davies, Cyng. C. Lloyd-Morgan;<br>2 Medi 2024 Cyng. C. Lloyd-Morgan, Cyng. A. Evans | **Minutes of the Last Meeting**<br>The following minutes were confirmed and accepted, proposed and seconded by:<br>24th June, 2024: Cllr. P. Davies, Cllr. A. Davies;<br>30th July, 2024: Cllr. P. Davies, Cllr. C. Lloyd-Morgan;<br>2 September 2024 Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cllr. A. Evans |
| 69. | **Materion yn Codi o'r Cofnodion**<br>Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt. | **Maters Arising from the Minutes**<br>A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon. |
| 70. | Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr. Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ceredigion i ymholi pwy ddylid cysylltu gydag o ran y tir feddiannwr. | Landslide near the side of the River Ystwyth behind Abermagwr. Clerk to contact Ceredigion County Council with enquires who to contact as landowner. |
| 71. | Y materion canlynol wedi cyfeirio at y Cyngor Sir. | The following have been referred to the County Council. |
| 72. | Tyllau ar y ffordd heibio i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. | Pot holes on the road by Llanfihangel-y-Creuddyn School. |

73. Drain ddwr agored wrth ben lôn Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn parhau angen sylw.

Open drain by Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn still needs attention.

74. Tyfiant o'r gwrychoedd ar ffordd uchaf yn Llanafan, Cyngor Sir Ceredigion yn monitro.

Growth from the hedgerows on Ffordd Uchaf Llanafan, Ceredigion County Council investigating.

75. Bont Sigl, Llanafan: y Cyngor Sir wedi cau'r bont dros dro oherwydd diogelwch. Cysyllter gyda'r Cyngor Sir i ymholi pa mor hir fydd ar gau.

Bont Sigl, Llanafan: County Council has closed the bridge due to safety. Contact to be made with the County Council to enquire how long it will be closed.

76. Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin yn diweddaru'r Cyngor Cymuned o'r bwriad a gofyn caniatâd fel lesddeiliaid i ymchwilio i ddefnydd amgen posibl o'r caeau chwarae. Cysylltir gyda Chyngor Sir Ceredigion i ymholi'r posibilrwydd o weithgareddau amgen ar y safle.

Maesyfelin Playing Field Association updating the Community Council asking permission as leaseholders to investigate possible alternative uses of the playing fields.
Contact to be made with Ceredigion County Council to enquire the possibility of alternative activities on site.

77. **Materion Cyllidol**
£740.00 (Ebrill 2024 – Awst 2024), £185.00 i HMRC (PAYE)
Cynigiwyd y taliad gan
Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. P. Bonner.

**Finance**
£740.00 from (April 2024 – August 2024)
£185.00 to HMRC (PAYE)
Payment proposed by
Cllr. C. Lloyd-Morgan and seconded by Cllr. P. Bonner.

78. £41.75 costau'r clerc.
Cynigiwyd taliad gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans

£41.75 clerk's expenses.
Payment proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. A. Evans

79. Anfoneb Archwilio Cymru:
Ffioedd Archwilio 2022/2023 £370.00
Ffioedd Archwilio 2023/2024 £200.00
Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd Morgan.

Audit Wales Invoice:
Audit Fees 2022/2023 £370.00
Audit Fees 2023/2024 £200.00
Payment proposed by Cllr. A. Davies, seconded by Cllr. C. Lloyd Morgan.

80. **Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn**
Cabinet Cyngor Sir Ceredigion wedi cytuno i Adolygu'r Ysgol gan ddilyn proses o ymgynghoriad cyhoeddus. Trafodir yn y Cyngor Bro pan dderbynnir manylion pellach gan y Cyngor Sir.

**Llanfihangel-y-Creuddyn School**
Ceredigion County Council's Cabinet had agreed to Review the School by following a process of public consultation.
Further discussion within the Community Council will take place once further details are received from the County Council.

81. **Gohebiaeth**

**Correspondence**

82. Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.
Derbyniwyd dogfen Argymhellion Terfynol gan dderbyn unrhyw sylwadau pellach i'r ddogfen.

Review of Community Arrangements of the County of Ceredigion.
A Final Recommendations document was received asking for further comments to the document.

Noder er y cynhwysir ymateb i'r Adroddiad Drafft gan Gyngor Bro Trawsgoed o fewn corff yr Argymhellion Terfynol ni restrwyd enw'r Cyngor Bro fel un a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn y tudalennau blaen. Y Clerc wedi cysylltu gyda Chomisiwn Democratiaethau Ffiniau Cymru i dynnu sylw at hyn.

It was noted that although Trawsgoed Community Council's response to the draft document had been included within the body of Final Recommendations document the name of the Community Council as responding to the consultation was not included in the initial pages. The Clerk has contacted the Democracy and Boundary Commission Cymru to highlight this.

83. Gohebiaeth gan aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw at broblem o ddraeniau dwr wedi gorlenwi ar y ffordd rhwng Llanafan a'r B4340 sy'n achosi llifogydd ar y B4340.
Tynnir sylw Cyngor Sir Ceredigion at y broblem.

Correspondence from a member of the public highlighting a problem of blocked water drains between Llanafan and the B4340 causing flooding on the B4340.
The situation to be brought to the attention of Ceredigion County Council's.

84. Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion a Chynghorau Tref a Chymuned 26ain Tachwedd, 2024 6.30 yh Canolfan Rheidol, Aberystwyth.
Cytunodd y Cyng. C. Lloyd-Morgan i gynrychioli'r Cyngor Bro yn y cyfarfod.

Meeting between representatives of Ceredigion County Council and Town and Community Councils 26th November, 2024 6.30 p.m. Canolfan Rheidol, Aberystwyth.
Cllr. C. Lloyd-Morgan agreed to represent the Community Council at the meeting.

85. Astudiaeth ddichonolrwydd ar adnabod y ddarpariaeth a'r galw presennol am brydau pryd ar glud neu brydau wedi'u paratoi ar gyfer preswylwyr hŷn, rhai sydd â llai o symudedd a phobl fregus ar draws cymunedau o fewn Ceredigion.
Holiadu'r i'w hysbysebu.

Feasibility study to identify the current provision and demand for meals on wheels or ready prepared meals for older residents, those less mobile and vulnerable persons across communities within Ceredigion.
Questionnaire to be distributed.

86. **Ceisiadau Cynllunio**

**Planning Applications·**

87. **Rhannu Gwybodaeth**

**Sharing of Information**

88. Mae angen torri gwrych ar ochr y ffordd ar y chwith rhwng y gyffordd Cnwch Coch ac Abermagwr. Cyngor Sir Ceredigion yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn monitro.

A roadside hedge on the left hand side between the junction to Cnwch Coch and Abermagwr needs cutting back. Ceredigion County Council aware of the situation and monitoring.

89. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 2 Rhagfyr 2024 am 7.30y.h. yn Neuadd Lisburn, Llanafan.

**DATE OF NEXT MEETING**
Monday 2nd December, 2024 at 7.30p.m. at Lisburne Hall, Llanafan.